# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS CYMUNEDAU

## DYDD IAU, 12 MAI 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd P.A. Palmer (Aelod y Bwrdd Gweithredol).

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Llewhellin - Swyddog Perfformiad, Llywodraethu a Pholisi
G. Morgan – Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 a.m. – 10.25 a.m.**

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

### 2. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS CYMUNEDAU A GYNHALIWYD AR Y 12FED EBRILL 2014.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 12fed Ebrill 2016 yn gofnod cywir.**

### 3. SEFYDLU PANEL YMGYNGHOROL YNGHYLCH TRECHU TLODI

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, Hyrwyddwr Gwrthdlodi yr Awdurdod, yn ystyried adroddiad, ar sefydlu Panel ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi.

Ym mis Chwefror 2015 roedd y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddai wedi sefydlu Grŵp Ffocws a oedd wedi awgrymu y dylid sefydlu Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi i roi cymorth pwysig i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol. Byddai'r panel hwn yn gyfrifol am oruchwylio a monitro Cynllun Gweithredu'r Cyngor ynghylch Trechu Tlodi, ei bolisi cyffredinol a'i agenda ehangach o ran trechu tlodi.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu amcanion arfaethedig y Panel a'r aelodau a awgrymwyd.

Wrth ategu'r awgrym a wnaed gan y Grŵp Ffocws, pwysleisiodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y dylai'r Panel Ymgynghorol ymgysylltu â phartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau bod y Grŵp yn pennu targedau a chamau gweithredu a fyddai'n arwain at newidiadau a chanlyniadau amlwg.

**PENDERFYNWYD**

**3.1** **Sefydlu Panel Ymgynghorol trawsbleidiol o blith yr Aelodau Etholedig ynghylch Trechu Tlodi i bennu camau a chefnogi a monitro gwaith y Cyngor yn ymwneud â Threchu Tlodi.**

**3.2** **Cytuno ar aelodaeth y Panel Ymgynghorol fel a ganlyn:-**
**Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am Drechu Tlodi ynghyd â**
**2 gynrychiolydd o Grŵp Plaid Cymru: Y Cynghorydd J. Eirwyn Williams a'r Cynghorydd Alun Lenny**
**2 gynrychiolydd o'r Grŵp Annibynnol: Y Cynghorydd D.W. Hugh Richards a'r Cynghorydd Wyn J.W. Evans**
**2 gynrychiolydd o'r Grŵp Llafur: Y Cynghorydd Deryk M. Cundy a'r Cynghorydd Jan Williams**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**